CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
8 o DACHWEDD 2021

EITEM 3

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy Zoom
nos Lun, 4 o Hydref 2021 am **7:00yh**

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Cadeirydd), Ken Hawkins, Robert Owen Ellis, Ethan Jones and Menna Jones

148. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cynghorwyr Ian Lewney, Ifan Wyn a Jabez Oakes.

149. DATGAN BUDDIANNAU
Dim.

150. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Medi 2021 yn gywir yn amodol ar y gwelliant canlynol:

- **Cofnod: 143 - Datganiadau o Fuddiant**: Datganodd y Cynghorydd Ethan Jones fuddiant yn y cais cynllunio yn ymwneud â 'The Nook'.

PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 13 Medi 2021 yn cael eu cadarnhau yn amodol ar y gwelliant uchod*

151. MATERION YN CODI
Nid oedd materion yn codi

152. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Roedd Clerc y Draf wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.

153. CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.
PENDERFYNWYD*: nad oedd gwrthwynebiad i'r cais a ganlyn:*

02/2021/0861 Min Yr Awel, 18 Llwyn Menlli, Ruthin
Dymchwel y garej bresennol a chodi estyniad ochr deulawr a chyntedd o flaen yr annedd.

154. NODYN CYNGOR TECHNEGOL (TAN) 15: DATBLYGU, LLIFOGYDD AC ERYDIAD ARFORDIROL
Nododd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi TAN 15: Datblygu, llifogydd ac erydu

arfordirol. Byddai TAN 15, a fyddai'n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2021, yn allweddol wrth benderfynu sut y byddai penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud. Dywedwyd y byddai'n bwysig sicrhau bod ardaloedd Rhuthun (a nodi'r yn las tywyll yn y cynlluniau) yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn rhoi tawelwch meddwl i drigolion.
PENDERFYNWYD: *nodi cyhoeddi dogfen TAN 15 gan Lywodraeth Cymru.*

155. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai nos Lun, 8 o Dachwedd am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*